**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 18 Mehefin 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | C E Lloyd | A Pugh |
| J A Raynor | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): S Pritchard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 199. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 206 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 200. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2020;

2) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2020;

3) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020.

**201. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**202. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**203. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**204. Cronfa Cartrefi Cynnes (CCC) - Cais am gyllid ar gyfer gosod Systemau Gwres Canolog am y tro cyntaf yng nghartrefi'r Sector Preifat yn Abertawe.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf. Caiff y Gronfa Cartrefi Cynnes ei defnyddio i osod system gwres nwy addas, am y tro cyntaf, mewn sawl eiddo ar draws Abertawe y nodwyd eu bod mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), i breswylwyr sydd mewn perygl o dlodi tanwydd, neu sydd eisoes mewn tlodi tanwydd a chanddynt system gwres trydanol neu danwydd solet.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r cynnig am gyllid gan y Gronfa Cartrefi Cynnes er mwyn gosod systemau gwres canolog mewn cartrefi cymwys am y tro cyntaf ar gyfer 2020 a 2021 ac ychwanegu'r cynllun at y rhaglen gyfalaf;

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol, y Prif Swyddog Cyllid ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau gymeradwyo'r cyllid a’r ddogfennaeth gytundebol angenrheidiol.

**205. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2020/21.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ceisio ystyriaeth ar gyfer mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch newydd dros dro sy'n berthnasol i Ardrethi busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Mae hyn yn ategu’r Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi manylion y cynllun fel y'u nodir yn yr adroddiad;

2) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, ar gyfer 2020/2021.

## 206. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | Lyn Ellis |
| 2) | Ysgol Gynradd Christchurch | Dr Janet Goodall |
| 3) | Ysgol Gynradd Craigfelen | Richard Bevan |
| 4) | Ysgol Gynradd y Glais | Jill John |
| 5) | Ysgol Gynradd Glyncollen | Carole Wright |
| 6) | Ysgol Gynradd Grange | Katy Elizabeth Lewis |
| 7) | Ysgol Gynradd Llanrhidian | yr Athro Ruth Costigan |
| 8) | Ysgol Gynradd Pontybrenin | Caroline Hodson |
| 9) | Ysgol Gynradd Portmead | Wynne Griffiths |
| 10) | Ysgol Gynradd Sgeti | Sharon Jones |
| 11) | YGG Gellionnen | Rebecca Williams |
| 12) | YGG Lôn-Las | Susan Rodway |
| 13) | YGG y Login Fach | Stephen Watkins |

## 207. Gwahardd y cyhoedd

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 208. Caffael tir i'r de o Fabian Way yn Nociau Abertawe ar gyfer ffordd gyswllt SA1 arfaethedig.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y pris prynu y cytunwyd arno ar gyfer caffael 18.7 erw o dir gan Ddinas a Sir Abertawe yn Noc Abertawe. Prynir y tir yn ôl cyfarwyddyd y cleient Priffyrdd, ac mae ei angen er mwyn hwyluso adeiladu ffordd feingefn trwy SA1, gan gysylltu Baldwin’s Crescent a Langdon Road.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Mehefin 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Mehefin 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Mehefin 2020 |